

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2(i). Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Medi 2022. Nid oes dyddiad wedi ei gyhoeddi eto ar gyfer Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Mae'r Bil ar gael yn: [cyhoeddiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir \(Dirymu a Diwygio\) – Biliau Senedd y DU – Senedd y DU](#)
3. Ysgrifennais at y Llywydd ar 5 Hydref 2022 i esbonio, gan nad oedd cynnwys polisi sylweddol yn y Bil wedi cael ei rannu â'r Llywodraethau Datganoledig cyn ei gyflwyno, na fu digon o amser i ddeall goblygiadau'r Bil ar gyfer datganoli ac yn ehangach, ac na fyddai'n bosibl gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o fewn y cyfnod arferol o bythefnos.

### Amcan(ion) Polisi

4. Disgrifiwyd amcan polisi datganoledig Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir (REUL) yn ei dogfen Benefits of Brexit<sup>1</sup> ym mis Ionawr 2022, gan amlinellu mai '*Our intent is to amend, replace, or repeal all the retained EU law that is not right for the UK*'. Cadarnhawyd cynllun Llywodraeth y DU yn araith y Frenhines<sup>2</sup> ym mis Mai 2022 gan ddatgan, '*Regulations on businesses will be repealed and reformed. A bill will enable law inherited from the European Union to be more easily amended*'.
5. Yn fwy penodol, yn y Nodiadau Esboniadol<sup>3</sup> ar gyfer y Bil, nodir mai diben y Bil yw rhoi i Lywodraeth y DU '*all the required provisions that allow for the amendment of retained EU law (REUL) and remove the special features it has in the UK legal system*'. Yn y Memorandwm Pwerau Dirprwyedig<sup>4</sup> ar gyfer y Bil, mae Llywodraeth y DU yn mynd ymhellach, gan ddatgan, '*The main purpose of the Bill is to remove the precedence given to retained EU law in the UK statute book and to firmly re-establish our Parliament as the principal source of law in the UK, restoring the primacy of Acts of Parliament in UK statute. We will no longer have a two-*

<sup>1</sup> [The Benefits of Brexit: How the UK is taking advantage of leaving the EU \(publishing.service.gov.uk\)](#)

<sup>2</sup> Araith y Frenhines - 10 Mai 2022 - [Araith y Frenhines 2022 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

<sup>3</sup> Nodiadau Esboniadol - [Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir \(Dirymu a Diwygio\) \(parliament.uk\)](#)

<sup>4</sup> [Memorandwm Pwerau Dirprwyedig Bil REUL 20-09-22 \(parliament.uk\)](#)

*tiered statute book, with the remnants of our EU membership continuing to have an outsize effect on our domestic law’.*

### **Crynodeb o'r Bil**

6. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.
7. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu'r canlynol:
  - Diddymu (machlud) neu gymhathu REUL erbyn diwedd 2023.
  - Diddymu'r egwyddor o oruchafiaeth cyfraith yr UE o gyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
  - Hwyluso llysoedd domestig i wyro oddi wrth y gyfraith achosion a ddargedwir.
  - Darparu mecanwaith i Swyddogion y Gyfraith Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ymyrryd mewn achosion ynglŷn â REUL, neu eu atgyfeirio at lys apêl, pan fo'n berthnasol.
  - Diddymu hawliau a rhwymedigaethau cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol effeithiol yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
  - Diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
  - Sefydlu rheol flaenoriaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (RDEUL) gael ei dehongli a'i chymhwyso yn gyson â deddfwriaeth ddomestig.
  - Israddio statws RDEUL er mwyn ei gwneud yn haws ei diwygio.
  - Creu cyfres o bwerau sy'n caniatáu i REUL gael ei dirymu neu ei disodli, ei hailddatgan neu ei diweddarau a'i dileu neu ei diwygio i leihau beichiau.
8. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (EUWA), sy'n ddeddfiad gwarchoddedig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae cymalau amrywiol o fewn y Bil (fel yr amlinellir isod) yn addasu'r darpariaethau cyffredol o fewn EUWA, ac o'r herwydd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ("y Senedd").

### **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

9. Mae'r Bil yn Fil perthnasol o fewn RhS 29 gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru ("darpariaeth berthnasol" at ddibenion RhS 29).
10. Mae angen cydsyniad mewn perthynas â darpariaethau a geir yn y cymalau a nodir isod i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth sy'n "ddarpariaeth berthnasol" at ddibenion RhS 29.

## **Cymalau sy'n rhoi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru a/neu un o Weinidogion y Goron**

### **Cymal 1 Machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir**

11. Mae'r cymal hwn yn darparu ar gyfer dyddiad machlud o 31 Rhagfyr 2023 ar gyfer pob 'is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE'<sup>5</sup> a 'deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir' oni bai ei bod (a) yn cael ei phennu mewn rheoliadau (y caniateir eu gwneud, yn achos deddfwriaeth o fewn cymhwysedd y Senedd, gan Weinidogion y Goron neu Weinidogion Cymru) cyn y dyddiad hwnnw a'i chymhathu â chyfraith ddomestig (o dan gymal 6); neu (b) yn cael estyniad mewn rheoliadau (gweler cymal 2 isod).
12. Mae gan y Senedd gymhwysedd i ddirymu neu 'fachlud' REUL sy'n gymwys o ran Cymru (ac eithrio mewn meysydd a gedwir yn ôl) ac i roi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â meysydd datganoledig o'r fath.
13. Felly, mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae'r cymal hwn a'r pŵer i wneud rheoliadau yn gymwys i feysydd datganoledig.
14. I'r graddau y mae'r pŵer i wneud rheoliadau a grëir o dan y cymal hwn yn cael ei roi i Weinidogion Cymru, mae ddarpariaeth o'r fath yn addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

### **Cymal 2 Estyn machlud o dan adran 1**

15. Mae'r cymal hwn yn darparu mecanwaith i estyn y dyddiad machlud i amser nad yw'n hwyrach na 23 Mehefin 2026 ar gyfer darn penodol o REUL neu ddisgrifiad penodol o REUL, i'w nodi mewn rheoliadau. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn arferadwy gan un o Weinidogion y Goron yn unig.
16. Mae'r ddarpariaeth hon at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y gellid defnyddio'r pŵer hwn i wneud ddarpariaeth o fewn meysydd datganoledig.

---

<sup>5</sup> Diffinnir “**is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE**” (“*EU-derived subordinate legislation*”) i olygu unrhyw is-ddeddfwriaeth ddomestig i'r graddau y cafodd—

(a) ei gwneud o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, neu baragraff 1A o Atodlen 2 iddi, neu

(b) ei gwneud, neu ei gweithredu'n union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2)(a) o'r Ddeddf honno (gweithredu rhwymedigaethau'r UE etc), ac fel y'i haddaswyd gan unrhyw ddeddfiad.

Diffinnir “**deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir**” (“*retained direct EU legislation*”) yn adran 20 o EUWA fel unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE sy'n ffurfio rhan o gyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 3 (fel y'i haddaswyd gan neu o dan y Ddeddf hon neu gan gyfraith ddomestig arall o bryd i'w gilydd, a chan gynnwys unrhyw offerynnau a wneir oddi tani ar neu ar ôl y diwrnod ymadael);

## Cymal 8 Cydnawsedd

17. Mae'r cymal hwn yn darparu pŵer i alluogi 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' (un o Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli) i ddatgan yr hierarchaeth ddeddfwriaethol rhwng darnau penodedig o ddeddfwriaeth ddomestig a darpariaethau penodedig o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, gan gynnwys deddfwriaeth o'r fath sy'n cael ei chymhathu ar ôl 2023. O ganlyniad, pan fo awdurdod cenedlaethol perthnasol wedi arfer ei bŵer dargadw o dan gymal 1, bydd yn gallu defnyddio'r pŵer hwn yng nghymal 8 i roi blaenoriaeth i ddarnau unigol penodol o RDEUL. Daw'r pŵer hwn i ben ar 23 Mehefin 2026.
18. Effaith y cymal hwn yw y bydd adran newydd 5(A2) o EUWA (a fewnosodir gan gymal 4, fel yr amlinellir isod) yn cael ei datgymhwyso, pan wneir rheoliadau o'r fath, er mwyn galluogi awdurdod cenedlaethol perthnasol i gynnal yr hierarchaeth ddeddfwriaethol bresennol yn hytrach ar ôl diwedd goruchafiaeth.
19. Mae'r cymal hwn yn addasu deddfiad gwarchoddedig. Felly, byddai angen cydsyniad y Senedd ar y sail y bydd y cymal hwn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu deddfiad gwarchoddedig, fel yr amlinellir ym mharagraff 42 isod.
20. I'r graddau y rhoddir y pŵer i wneud rheoliadau o dan y cymal hwn i Weinidogion Cymru, mae darpariaeth o'r fath hefyd yn addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Pwerau sy'n ymwneud â REUL a chyfraith gymathedig: cymalau 12, 13, 15 ac 16:**

### Cymal 12 Pŵer i ailddatgan cyfraith yr UE a ddargedwir

21. Mae cymal 12(1) yn darparu pŵer i 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' (sy'n cynnwys un o Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli) ailddatgan darpariaethau is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir.<sup>6</sup>
22. Mae is-gymal (3) yn cadarnhau na fydd ailddatganiadau bellach yn REUL ac mae is-gymal (4) yn darparu na fydd yr egwyddor o oruchafiaeth, egwyddorion cyffredinol a ddargedwir, na hawliau adran 4 na chyfraith achosion a ddargedwir, yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ailddatganiad, oni bai eu bod yn cael eu hailgynhyrchu'n benodol (is-gymal 6). Mae is-gymal 7 yn cadarnhau bod y pŵer hwn yn dod i ben ar ddiwedd 2023.

---

<sup>6</sup> sy'n cael ei diffinio yn adran 12(2) o'r Bil fel (a) unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir nad yw'n ddeddfwriaeth sylfaenol; (b) unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ddeddfwriaeth sylfaenol y cafodd ei thestun ei fewnosod gan is-ddeddfwriaeth.

### **Cymal 13 Pŵer i ailddatgan cyfraith gymathedig neu atgynhyrchu hawliau, pwerau, rhwymedigaethau etc yr UE a ddargedwir sydd wedi machlud**

23. Mae cymal 13 yn darparu pŵer tebyg i gymal 12 ond y mae i weithredu ar ôl 2023 mewn perthynas â 'chyfraith gymathedig', pan fydd cymalau 3 i 6 wedi dod i rym.
24. Mae cymalau 12 a 13 yn cael eu hategu gan gymal 14, sy'n sefydlu paramedrau cyffredinol pellach ynghylch yr hyn y gall ailddatganiad ei wneud a sut (gweler isod).

### **Cymal 14 Pwerau i ailddatgan neu atgynhyrchu: cyffredinol**

25. Fel y nodir uchod, mae cymal 14 yn sefydlu'r paramedrau cyffredinol ynghylch yr hyn y gall ailddatganiad o dan gymalau 12 a 13 ei wneud. I'r graddau y mae'r pwerau i wneud rheoliadau yng nghymalau 12 a 13 o'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn yr un modd byddai nodi cwmipas a natur pwerau o'r fath o fewn cymhwysedd.

### **Cymal 15 Pwerau i ddirymu neu ddisodli**

26. Mae cymal 15 yn darparu pŵer i 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' (sy'n cynnwys un o Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli) ddirymu unrhyw is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir (i'w ddarllen fel 'is-ddeddfwriaeth gymathedig' ar ôl diwedd 2023) gan (i) beidio â'i disodli; (ii) ei disodli â darpariaeth o'r fath y mae'n ystyried ei bod yn briodol ac i gyflawni'r un amcanion neu amcanion tebyg; neu (iii) gwneud unrhyw ddarpariaeth amgen y mae'n ystyried ei bod yn briodol. Cyfyngir y pwerau i gyfraith ddirymu neu amnewid y mae awdurdod cenedlaethol perthnasol yn ystyried nad yw'n ychwanegu at y baich rheoleiddio cyffredinol. Nid yw unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd yr adran hon yn gyfraith yr UE a ddargedwir, ac mae'r pŵer hwn yn dod i ben ar 23 Mehefin 2026.

### **Cymal 16 Pŵer i ddiweddarau**

27. Mae cymal 16(1) yn darparu pŵer i 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' (sy'n cynnwys un o Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli) wneud rheoliadau i addasu unrhyw is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir (i'w ddarllen fel 'is-ddeddfwriaeth gymathedig' ar ôl diwedd 2023), neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan gymalau 12, 13 neu 15 o'r Bil, fel yr ystyrir yn briodol, er mwyn ystyried: (a) newidiadau mewn technoleg, neu (b) datblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol.
28. Mae cymalau 12, 13, 15 ac 16 yn darparu pwerau amrywiol i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau i REUL (neu gyfraith gymathedig ar ôl 2023), o fewn meysydd datganoledig. Mae gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu ar gyfer REUL sy'n ymwneud â Chymru ac na chedwir yn ôl ac i wneud

unrhyw ddarpariaeth arall o'r fath/rhoi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â meysydd datganoledig o'r fath.

29. Felly, mae'r darpariaethau hyn at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae'r cymalau hyn a'r pwerau i wneud rheoliadau yn gymwys i feysydd datganoledig.
30. Yn ogystal, gall un o Weinidogion y Goron hefyd arfer y pwerau yn y cymalau hyn o fewn meysydd datganoledig, gan gynnwys addasu deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd y Senedd mewn sefyllfaoedd penodol. Yr effaith yw y gallai pwerau o'r fath gael eu defnyddio i wneud darpariaeth o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.
31. I'r graddau y rhoddir pwerau i wneud rheoliadau o dan y cymalau hyn i Weinidogion Cymru, mae'r darpariaethau hyn hefyd yn addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

### **Cymal 17 Pŵer i ddileu neu leihau beichiau**

32. Mae'r cymal hwn yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (LRRRA) i ganiatáu defnyddio Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol i ddiwygio unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.
33. Er nad oes gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i ddiwygio LRRRA yn uniongyrchol gan ei bod yn gymwys ar sail y DU gyfan, effaith y ddarpariaeth hon yw y gellir gwneud Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol i ddiwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli (yn ddarostyngedig i'r gofynion presennol ar gyfer cydsyniad o fewn adran 11 o LRRRA). O ganlyniad, mae hon yn ddarpariaeth at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y gellid defnyddio'r pŵer hwn i wneud darpariaeth o fewn meysydd datganoledig.

### **Cymal 19 Darpariaeth ganlyniadol**

34. Mae is-gymal (1) yn darparu y caiff un o Weinidogion y Goron drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth yr ystyrir ei bod yn briodol o ganlyniad i'r Bil hwn. Mae is-gymal (2) yn egluro bod y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol yn cynnwys y gallu i addasu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys darpariaethau'r Bil hwn).
35. Mae'r pŵer hwn yn rhoi pwerau eang i Weinidogion y Goron yn unig wneud darpariaeth ganlyniadol. Mae hon yn ddarpariaeth at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y gellid gwneud darpariaeth o'r fath o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu mewn modd sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## **Cymal 20 Rheoliadau: cyffredinol**

36. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau y caniateir eu gwneud o dan bwerau dirprwyedig a roddir gan y Bil. I'r graddau y mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn yr un modd byddai nodi cwmpas a natur pwerau o'r fath o fewn cymhwysedd. Mae'r ddarpariaeth hon felly yn "ddarpariaeth berthnasol" at ddibenion RhS 29.
37. Mae'r cymal hwn hefyd yn cyflwyno Atodlenni 2 a 3, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch arfer pwerau gan Weinidogion Cymru ac ynghylch gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau, yn y drefn honno, ac am y rhesymau a amlinellir isod ystyrir bod angen cydsyniad ar eu cyfer hwythau.

## **Atodlen 2 – Rheoliadau: cyfyngiadau ar bwerau awdurdodau datganoledig**

38. Mae Atodlen 2 (fel y'i cyflwynwyd gan gymal 20(2)) yn cynnwys darpariaethau sy'n amlinellu'r hyn a olygir wrth 'gymhwysedd datganoledig' ac mae'n gymwys i reoliadau o dan y Bil pan roddir y pŵer i wneud y rheoliadau i awdurdod cenedlaethol perthnasol (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru), yn unol â chymalau 1, 8, 12, 13, 15 ac 16 (fel yr amlinellir uchod).
39. I'r graddau y mae'r atodlen hon yn gymwys i bwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil y byddai gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i'w creu a/neu sy'n addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, byddai angen cydsyniad ar gyfer yr atodlen hon hefyd.

## **Atodlen 3 – Rheoliadau: y weithdrefn**

40. Mae Atodlen 3 (fel y'i cyflwynwyd gan gymal 20(3)) yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch y weithdrefn ar gyfer pwerau o dan y Bil, a darpariaethau manwl ynghylch pryd y mae rhaid i lywodraethau datganoledig ymgynghori â Llywodraeth y DU neu gael cydsyniad ganddi cyn gwneud rheoliadau o dan y Bil, ac ynghylch pryd y mae rhaid i ddarpariaeth mewn rheoliadau gael eu gwneud ar y cyd â Gweinidogion y Goron. Ceir darpariaethau hefyd ynglŷn â'r math o graffu seneddol sydd ei angen.
41. I'r graddau y mae'r atodlen hon yn darparu ar gyfer y weithdrefn sy'n gymwys i bwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil y byddai gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i'w creu a/neu sy'n addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, byddai angen cydsyniad ar gyfer yr atodlen hon hefyd.

## **Cymalau sy'n diwygio'r darpariaethau presennol yn EUWA**

42. Mae'r Bil yn gwneud nifer o newidiadau i EUWA, drwy hepgor cymalau presennol a mewnosod darpariaeth newydd yn eu lle. Bydd unrhyw ddiwygiad i EUWA (fel deddfiad gwarchodedig) yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn rhinwedd bod cynnwys deddfiad gwarchodedig o'r fath yn cael ei addasu. Bydd hyn yn wir p'un a fydd cynnwys yr addasiad hwnnw o fewn meysydd datganoledig ai peidio gan y bydd y ffaith bod darpariaeth o'r fath yn dod yn ddeddfiad gwarchodedig yn atal y Senedd rhag gwneud hyd yn oed ddiwygiadau canlyniadol i'r darpariaethau hynny yn y dyfodol.
43. Er gwaethaf yr uchod, ystyrir beth bynnag fod y darpariaethau a amlinellir isod yn berthnasol i faterion datganoledig, oherwydd effaith ehangach y newidiadau ar feysydd datganoledig.
44. Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cymru felly'n ystyried ei bod yn briodol ceisio cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn o'r Bil. Fe'u hystyrir yn fanylach isod.

## **Cymal 3 Machlud hawliau, pwerau, rhwymedigaethau etc yr UE a ddargedwir**

45. Mae'r cymal hwn yn diddymu adran 4 o EUWA 2018 ar 31 Rhagfyr 2023, fel na fydd unrhyw beth sy'n REUL o ganlyniad i'r adran honno yn cael ei gydnabod, ar gael nac yn orfodadwy yng nghyfraith y DU o'r dyddiad hwnnw ymlaen.
46. Effaith benodol y cymal hwn yw na fydd hawliau o'r fath bellach yn cael eu cydnabod nac ar gael o fewn cyfraith ddomestig. Er enghraifft, ar y cyd â goruchafiaeth, ni fydd hawliau o'r fath bellach yn diystyru deddfwriaeth ddomestig (gan gynnwys deddfwriaeth Cymru), nac yn arwain at ddatgymhwysiad posibl deddfwriaeth o'r fath (oni bai eu bod yn cael eu cynnal yn benodol drwy bwerau o dan gymalau 8 neu 12/13 o'r Bil).
47. Mae'r cymal hwn yn addasu deddfiad gwarchodedig. Felly, byddai angen cydsyniad y Senedd ar y sail y bydd y cymal hwn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu deddfiad gwarchodedig, fel yr amlinellir ym mharagraff 42 uchod ac oherwydd ei effaith ehangach ar feysydd datganoledig.

## **Cymal 4 Diddymu goruchafiaeth cyfraith yr UE**

48. Mae'r cymal hwn yn gwneud diwygiadau i adran 5 o EUWA sydd ar hyn o bryd yn cymhwyso'r egwyddor o oruchafiaeth cyfraith yr UE mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig a wnaed ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020. Mae'r cymal yn diddymu'r egwyddor ar ddiwedd 2023 mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig, pryd bynnag y'i gwnaed. Mae'r cymal hwn hefyd yn sefydlu rheol flaenoriaeth newydd yn dilyn diddymu'r egwyddor o oruchafiaeth, sy'n ei gwneud yn ofynnol



darllen RDEUL a rhoi effaith iddi mewn ffordd sy'n gydnaws â'r holl ddeddfiadau domestig, a, phan fo'r ddau'n gwrthdaro, deddfiadau domestig sydd i gael blaenoriaeth dros RDEUL.

49. Mae'r ddarpariaeth hon yn newid y berthynas rhwng REUL a deddfwriaeth ddomestig cyn 31 Rhagfyr 2020, ac felly mae'n newid, yn ôl-weithredol, effaith deddfwriaeth ddomestig o fewn meysydd datganoledig a sut y mae llysoedd yn dehongli REUL o fewn meysydd datganoledig.
50. Mae'r cymal hwn yn addasu deddfiad gwarchodedig. Felly, byddai angen cydsyniad y Senedd ar y sail y bydd y cymal hwn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu deddfiad gwarchodedig, fel yr amlinellir ym mharagraff 42 uchod ac oherwydd ei effaith ehangach ar feysydd datganoledig.

### **Cymal 5 Diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE**

51. Mae'r cymal hwn yn diwygio EUWA, fel na fydd egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE bellach yn rhan o gyfraith y DU o ddiwedd 2023 ymlaen. Bydd y ddarpariaeth hon yn newid sut y mae llysoedd yn dehongli REUL o fewn meysydd datganoledig, gan fod egwyddorion o'r fath yn berthnasol ar hyn o bryd i'r ffordd o ddehongli REUL.
52. Mae'r cymal hwn yn addasu deddfiad gwarchodedig. Felly, byddai angen cydsyniad y Senedd ar y sail y bydd y cymal hwn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu deddfiad gwarchodedig, fel yr amlinellir ym mharagraff 42 uchod ac oherwydd ei effaith ehangach ar feysydd datganoledig.

### **Cymal 6 "Cyfraith gymathedig"**

53. Mae cymal 6(1) yn sefydlu "cyfraith gymathedig" ("*assimilated law*") fel corff newydd o'r gyfraith. Bob amser ar ôl diwedd 2023, bydd REUL sy'n parhau mewn grym yn cael ei galw'n "gyfraith gymathedig". Nid yw cymal 6(1) yn diwygio EUWA.
54. Mae cymal 6(2) yn ei gwneud yn glir bod diwygiadau canlyniadol a wneir o dan adran 19 yn caniatáu ar gyfer diwygiadau i EUWA.
55. Mae cymal 6 yn gwneud darpariaeth berthnasol i'r graddau y mae at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae hyn yn berthnasol i feysydd datganoledig. Mae hefyd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu deddfiad gwarchodedig, fel yr amlinellir ym mharagraff 42 uchod.

### **Cymal 7 Rôl y llysoedd mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir**

56. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 6 o EUWA fel y bydd llysoedd uwch (h.y. y Goruchaf Lys neu'r Llys Apêl yng Nghymru a Lloegr) yn cael mwy o hyblygrwydd, ar ôl 31 Rhagfyr 2023, i wyro oddi wrth y gyfraith achosion a

ddargedwir ac wrth wneud hynny, mae'r cymal yn nodi rhestr o ffactorau eang iawn y gall y llys eu hystyried wrth benderfynu gwneud hynny.

57. Mae cymal 7 hefyd yn mewnosod adrannau newydd 6A, 6B a 6C yn EUWA i sefydlu gweithdrefn atgyfeirio, sy'n golygu y bydd llysoedd is yn gallu atgyfeirio pwyntiau cyfraith o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol ar gyfraith achosion a ddargedwir (y maent wedi eu rhwymo arnynt) i lys uwch (nad yw wedi ei rwymo felly) i benderfynu arnynt. Mae gan Swyddogion y Gyfraith hefyd bwerau i atgyfeirio achosion at y llysoedd apêl neu i ymyrryd mewn achosion sy'n codi materion sy'n ymwneud â chyfraith achosion a ddargedwir.
58. Mae'r cymal hwn yn addasu deddfiad gwarchoddedig. Felly, byddai angen cydsyniad y Senedd ar y sail y bydd y cymal hwn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu deddfiad gwarchoddedig, fel yr amlinellir ym mharagraff 42 uchod ac oherwydd ei effaith ehangach ar feysydd datganoledig.
59. Mae'r cymal hwn hefyd yn rhoi'r swyddogaethau ymyrryd ac atgyfeirio o fewn cymalau newydd 6B a 6C EUWA i Gwnsler Cyffredinol Cymru, ac felly mae cymhwysedd gweithredol hefyd yn cael ei addasu.

### **Cymal 9 Gorchmynion anghydawnsedd**

60. Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran newydd 6D yn EUWA, gan wneud darpariaeth i lysoedd wneud 'gorchmynion anghydawnsedd' lle mae'r llysoedd yn cymhwyso'r rheol flaenoriaeth newydd ar gyfer deddfwriaeth ddomestig dros RDEUL a fewnosodir yn adran 5(A2) EUWA gan gymal 4(1), neu'r rheol flaenoriaeth groes a gymhwysir gan is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pŵer yng nghymal 8(1). Gallai gorchmynion anghydawnsedd a wneir gan y llysoedd o dan y ddarpariaeth hon effeithio ar ddeddfwriaeth ddomestig, gan gynnwys deddfwriaeth y Senedd mewn meysydd datganoledig.
61. Mae'r cymal hwn yn addasu deddfiad gwarchoddedig. Felly, byddai angen cydsyniad y Senedd ar y sail y bydd y cymal hwn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu deddfiad gwarchoddedig, fel yr amlinellir ym mharagraff 42 uchod ac oherwydd ei effaith ehangach ar feysydd datganoledig.

### **Cymal 10 Cwmpas pwerau**

62. Mae cymal 10 yn darparu ar gyfer diwygiadau i Atodlen 8 i EUWA fel y gellir diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, ac unrhyw beth a ddargedwir yn rhinwedd adran 4, drwy bwerau is-ddeddfwriaeth yn awr ac yn y dyfodol (nid dim ond y rhai y mae pwerau Harri'r Wythfed yn bodoli eisoes mewn perthynas â hwy).
63. Mae cymal 10 hefyd yn cyflwyno atodlen 1 (gweler isod) i'r Bil sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau deddfwriaeth sylfaenol

sy'n cynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n diwygio RDEUL, gan adlewyrchu'r ffaith bod y cyfyngiadau presennol o fewn EUWA wedi eu dileu gan y cymal 10 hwn.

64. Effaith benodol y cymal hwn yw y bydd modd diwygio holl ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir a hawliau adran 4 o fewn meysydd datganoledig drwy is-ddeddfwriaeth bresennol ac yn y dyfodol yn fwy cyffredinol, a thrwy hynny beri i gymhwysedd y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru gael eu haddasu.
65. Mae'r cymal hwn yn addasu deddfiad gwarchoddedig. Felly, byddai angen cydsyniad y Senedd ar y sail y bydd y cymal hwn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu deddfiad gwarchoddedig, fel yr amlinellir ym mharagraff 42 uchod ac oherwydd ei effaith ehangach ar feysydd datganoledig.

### **Cymal 11 Gofynion gweithdrefnol**

66. Mae cymal 11 yn diddymu'r gofynion craffu seneddol a nodir ym mharagraffau 13 i 15 o Atodlen 8 i EUWA, sy'n gymwys i ddiwygio neu ddirymu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.
67. Effaith benodol y cymal hwn yw bod y broses graffu bresennol sy'n gymwys i ddiwygio neu ddirymu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd yn cael ei newid.
68. Mae'r cymal hwn yn addasu deddfiad gwarchoddedig. Felly, byddai angen cydsyniad y Senedd ar y sail y bydd y cymal hwn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu deddfiad gwarchoddedig, fel yr amlinellir ym mharagraff 42 uchod ac oherwydd ei effaith ehangach ar feysydd datganoledig.

### **Gweddill y darpariaethau**

#### **Cymal 21 Dehongli**

69. Mae'r cymal hwn yn nodi ystyron termau a ddefnyddir drwy gydol y Bil. I'r graddau y mae'r diffiniadau hyn yn gymwys i gymalau o fewn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, byddai angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn hefyd.

#### **Cymal 22 Cychwyn, trosiannol ac arbedion**

70. Mae'r cymal hwn yn nodi pa ddarpariaethau yn y Bil sy'n dod i rym a phryd. I'r graddau y mae'r cymal hwn yn darparu ar gyfer cychwyn cymalau eraill yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, byddai angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn hefyd.

## **Cymal 23 Graddau a theitl byr**

71. Mae'r cymal hwn yn darparu bod y ddeddfwriaeth yn rhychwantu Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. I'r graddau y mae cymalau yn y Bil yn gymwys i Gymru ac y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, byddai angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn hefyd.

### **Atodlen 1**

72. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i newid y weithdrefn graffu seneddol ar gyfer pwerau penodol a roddir gan EUWA neu mewn statudau eraill, y gellir eu defnyddio i ddiwygio RDEUL a hawliau Adran 4. Mae'r diwygiadau hyn yn adlewyrchu dileu cyfyngiadau ar bwerau o'r fath a wneir gan gymal 10.
73. Mae Rhan 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 7 o EUWA ac i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020, i addasu cyfeiriadau at y darpariaethau yn Atodlen 8 i EUWA sy'n cael eu diwygio gan gymal 10.
74. I'r graddau y mae Atodlen 1 yn gwneud newidiadau i statudau amrywiol sydd, mewn rhai achosion, yn newid y weithdrefn sy'n gymwys i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, neu sydd fel arall yn gwneud diwygiadau canlyniadol i gwmpas/natur pwerau Gweinidogion Cymru, gan edrych ar effaith y diwygiadau canlyniadol hyn yn gyffredinol ar feysydd datganoledig, mae Atodlen 1 yn rhoi sylw i faterion datganoledig ac felly mae angen cydsyniad.

### **Pwerau Gweinidogion Cymru**

75. Mae paragraff 10 o Ran 2 o Atodlen 3 yn nodi gweithdrefn y Senedd pan wneir rheoliadau gan Weinidogion Cymru o dan bwerau yn y Bil.
76. Mae'r pwerau isod i wneud rheoliadau yn arferadwy gan Weinidogion Cymru ac yn ddarostyngedig i Weithdrefn Gadarnhaol Ddrafft y Senedd:
- a) rheoliadau o dan gymal 8 sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol;
  - b) rheoliadau o dan gymal 12 neu 13 sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol;
  - c) rheoliadau o dan gymal 15(2) sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth neu i greu trosedd;
  - d) rheoliadau o dan gymal 15(3).
77. Mae'r pwerau isod i wneud rheoliadau yn arferadwy gan Weinidogion Cymru ac yn ddarostyngedig i Weithdrefn Negyddol y Senedd:
- a) rheoliadau o dan gymal 1;

- b) rheoliadau o dan gymal 8 nad ydynt yn diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol;
- c) rheoliadau o dan gymal 16.

78. Ar gyfer unrhyw bwerau eraill i wneud rheoliadau yn y Bil sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru (h.y. heb eu hamlinellu uchod) gallai'r weithdrefn fod yn Weithdrefn Gadarnhaol Ddrafft y Senedd neu Weithdrefn Negyddol y Senedd yn dibynnu ar benderfyniad Gweinidogion Cymru a chanlyniad ymarfer sifftio, os bydd Gweinidogion Cymru'n dewis y weithdrefn negyddol ar gyfer rheoliadau o dan gymalau 12, 13 neu 15.

### **Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

79. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar y pryd, y Gwir Anrh. Jacob Rees-Mogg AS at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar 22 Medi yn amlinellu dadansoddiad datganoli Llywodraeth y DU o'r Bil a sut yr oedd sawl darpariaeth ynddo a fydd yn addasu EUWA, a fyddai'n rychwantu Cymru, gyda'r darpariaethau hynny a sbardunodd y broses cydsyniad deddfwriaethol, sef cymalau 1, 2, 3, 7, 10, 12, 13, 15, 16, 17 ac Atodlen 3. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras (ond nid yn gyfan gwbl) â'r cymalau hynny y mae Llywodraeth y DU wedi datgan eu bod yn ofynnol yn ei barn hi o fewn Atodiad A i'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil, fel y'i cyhoeddwyd ar 22 Medi, sef cymalau 1, 2, 7, 8, 10, 12-14, 16, 17, ac Atodlenni 2 a 3.
80. A ninnau wedi cynnal ein dadansoddiad ein hunain o'r Bil ein casgliad yw bod angen cydsyniad ar gyfer holl gymalau'r Bil (fel y nodir uchod), ac eithrio ar gyfer cymal 18 (sy'n diddymu darpariaethau targed effaith busnes o fewn adrannau 21 i 27 o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015, sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl).

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i cyflwynwyd**

81. Cyflwynwyd y Bil i fynd i'r afael â REUL ac i wireddu amcanion Llywodraeth y DU fel y'u hamlinellir yn yr adran amcanion polisi (gweler paragraffau 4 a 5 uchod).
82. Amcanion polisi Llywodraeth y DU yw'r amcanion polisi hyn ac nid ydynt yn cael eu rhannu gan Lywodraeth Cymru. Rydym o'r farn bod corff REUL, yn gyffredinol, yn gweithredu'n dda ac nad oes angen ei drin ar y cyd fel hyn. Mae ein safbwynt ar y Bil wedi ei gyfleu'n gryf drwy sianeli Gweinidogol a swyddogol.
83. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn cyflwyno nifer o bryderon cyfreithiol, cyfansoddiadol, polisi ac ymarferol.

## **Pwerau Cydredol**

84. Mae'r bil yn cynnwys sawl pŵer i gymhathu, ailddatgan, dirymu neu ddiweddarau REUL a roddir i un o Weinidogion y Goron ac a allai olygu bod Gweinidog yn Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau hyn mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae hwn yn fater cyfansoddiadol sylweddol iawn i Lywodraeth Cymru. Ein disgwyliad, yn y lle cyntaf, yw y dylai pwerau i ddiwygio deddfwriaeth ddatganoledig fod yn nwylo Gweinidogion Cymru yn unig, neu, os ydynt yn cael eu dal yn gydredol â Gweinidogion y Goron, y dylai fod gofyniad ar wyneb y Bil iddynt geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru i'w harfer mewn meysydd datganoledig.

## **Machlud yn achos REUL**

85. Mae gan Lywodraeth Cymru bryderon sylweddol iawn y bydd y terfyn amser mympwyol, sef diwedd 2023, ar gyfer machlud yn gorfodi pob llywodraeth ledled y DU i ailedrych ar y corff mawr hwn o gyfraith mewn amserlen gywasgedig iawn a fydd yn debygol o arwain at gamgymeriadau a diffyg gweithredadwyedd. Canlyniad cyfnod mor ddiangen o fyr i ystyried yr holl ryngddibyniaethau cymhleth yn y gyfraith fyddai llyfr statud camweithredol o bosibl.

86. Ar ben hynny, bydd y ddarpariaeth fachlud yn golygu na fydd gan Senedd y DU na'r deddfwrfeydd datganoledig unrhyw rôl graffu na goruchwyllo pe bai REUL yn machlud yn awtomatig ac na fydd yn debygol o ddarparu digon o amser ar gyfer ymgynghori effeithiol ar addasiadau arfaethedig i REUL, a allai arwain at faterion heb eu nodi ac effeithiau negyddol posibl, er enghraifft ar grwpiau gwarchodedig. Mae'r effaith ehangach ar Lywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol ailgyfeirio adnoddau ar adeg pan ddylem ganolbwyntio ar faterion llawer pwysicach, hefyd yn destun pryder mawr ac, yn ddi-os, bydd yn effeithio ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth a gallu'r Llywodraeth i gyflawni ymrwymadau eraill.

87. Mae mecanwaith yn y Bil i estyn y dyddiad machlud tan 2026 ar gyfer darnau penodol, neu ddisgrifiadau, o REUL, er mai dim ond i Weinidogion y Goron y darperir hyn. Dylai Gweinidogion Cymru allu arfer y pwerau hyn hefyd mewn perthynas â deddfwriaeth o fewn cwmpas y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfleu hyn yn gryf i Lywodraeth y DU a gofyn am ddiwygiadau yn y Bil i'w adlewyrchu.

## **Baich Rheoleiddio**

88. Mae'r Bil yn gosod cyfyngiadau ar ddefnyddio pwerau yng nghymal 15 i sicrhau na all newidiadau gynyddu'r baich rheoleiddio. Gallai hyn olygu y gellid ystyried bod cynigion i ddiwygio REUL, er enghraifft i adlewyrchu gwybodaeth wyddonol newydd neu ddatblygiad polisi, yn arwain at gynyddu'r baich rheoleiddio ac fe allai hyn yn ei dro gyfyngu ar ein gallu i wneud newidiadau effeithiol.

## **Rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU**

89. Mae potensial clir i'r gwaith o arfer y pwerau yn y Bil arwain at ymwahanu yn y gyfraith yn y meysydd hyn rhwng y Llywodraethau Datganoledig a Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi cyfeirio at ei bwriad i leihau'r baich rheoleiddio. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi unrhyw ymagwedd at ostwng yr ansawdd uchel a'r safonau y mae ein defnyddwyr, ein gweithwyr a'n busnesau wedi dod i'w disgwyl.

## **Pwerau ymyrryd/atgyfeirio**

90. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Swyddogion y Gyfraith atgyfeirio achosion at y llysoedd apêl neu i ymyrryd mewn achosion sy'n codi materion sy'n ymwneud â chyfraith achosion yr UE a ddargedwir. Er hynny, fel y'u drafftiwyd, mae'r amgylchiadau lle y gall Swyddogion y Gyfraith Datganoledig (gan gynnwys y Cwnsler Cyffredinol) arfer y pwerau atgyfeirio ac ymyrryd hyn yn llawer mwy cyfyngedig na'r rhai ar gyfer Swyddogion y Gyfraith Llywodraeth y DU. Er mwyn sicrhau y gall Swyddogion y Gyfraith Datganoledig ddiogelu buddiannau datganoledig, dylid ehangu'r pwerau hyn fel y gellir atgyfeirio pob mater, hyd yn oed y rhai a gedwir yn ôl, sy'n cael effaith mewn meysydd datganoledig.

## **Goblygiadau ariannol**

91. Nid oes modd rhoi amcangyfrif ar hyn o bryd o wariant tebygol o dan bwerau a nodir yn y Memorandwm hwn.

92. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu hyn ac yn ymdrechu i hysbysu'r Senedd am unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru yn ddiweddarach pan fyddant yn cael eu deall yn llawnach.

## **Casgliad**

93. O gofio'r pryderon sylweddol sydd gennym am y Bil, fel y'u nodir uchod, nid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth berthnasol yn y Bil hwn gael ei gwneud. Rwyf felly'n argymhell bod cydsyniad ar gyfer Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) yn cael ei atal.

**Mick Antoniw AS**  
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**  
**3 Tachwedd 2022**